Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

2. Rheoli eich sefydliad

2.8 Iechyd a diogelwch

Cyflwyniad

Cynlluniwyd y canllawiau hyn er mwyn eich cyflwyno chi, fel elusen neu sefydliad sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr, i gyfrifoldebau iechyd a diogelwch. Cyflwyniad yn unig a geir. Er mwyn cael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r sefydliadau a restrwyd ar ddiwedd y daflen wybodaeth hon.

Cyfraith iechyd a diogelwch

Mae cyfraith iechyd a diogelwch y DU yn nodi cyfrifoldebau cyflogwyr, pobl hunangyflogedig a phobl sy'n gyfrifol am safleoedd tuag at eu gweithwyr, eu gwirfoddolwyr a phobl sy'n dod yno i wneud gwaith. Dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, mae'n rhaid ichi sicrhau iechyd a diogelwch pobl eraill y gallai'r hyn yr ydych chi'n ei wneud, neu'n peidio â'i wneud, effeithio arnynt. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n gweithio i chi, gan gynnwys gwirfoddolwyr, hyfforddwyr ac isgontractwyr a phobl sy'n ymweld â'ch safle. Mae'n bwysig iawn bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu a bod gennych drefniadau i reoli pob risg iechyd a diogelwch sy'n deillio o weithgareddau eich sefydliad.

Pwy sy'n gorfodi'r gyfraith iechyd a diogelwch?

Gorfodir y gyfraith iechyd a diogelwch gan arolygwyr o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd o'ch awdurdod lleol.

Yn gyffredinol, eich awdurdod lleol yw'r corff gorfodi ar gyfer gweithgareddau:

- swyddfa
- adwerthu neu gyfanwerthu
- warysau
- gwestai ac arlwyo
- chwaraeon a hamdden
- adloniant neu weithgareddau diwylliannol neu adloniadol eraill, ac eithrio darlledu
- llety preswyl, ac eithrio cartrefi nyrsio
- sy'n ymwneud ag addoldai
- gofal plant cyn-ysgol
- gwerthu symudol

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw'r corff gorfodi ar gyfer y rhan fwyaf o'r mathau eraill o weithgareddau.

Gall arolygwyr ymweld ag unrhyw safle neu weithle yn ddirybudd. Mae ganddynt bwerau pellgyrhaeddol, gan gynnwys hawl i gael mynediad i'ch safle, hawl i siarad â gweithwyr a chynrychiolwyr diogelwch ac i dynnu lluniau a chymryd samplau. Mae ganddynt hawl i gael cydweithrediad gennych chi ac ateb i'w cwestiynau.

Gwybodaeth sylfaenol

Yn ôl y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith rhaid:

- cael polisi iechyd a diogelwch ysgrifenedig, cyfredol os ydych yn cyflogi pump neu fwy o bobl;
- gwneud asesiad risg (ac os ydych yn cyflogi pump neu fwy o bobl, cofnodi'r prif ganfyddiadau a'ch trefniadau ar gyfer iechyd a diogelwch);
- hysbysu eich arolygwr lleol eich bod yn defnyddio safle os ydych yn fusnes masnachol neu ddiwydiannol;
- dangos tystysgrif gyfredol fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969 os ydych yn cyflogi rhywun;
- arddangos poster y Ddeddf Iechyd a Diogelwch ar gyfer gweithwyr neu roi'r daflen iddynt;
- rhoi gwybod am fathau penodol o anafiadau, clefydau a digwyddiadau yn y gwaith, yn unol â Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR);cysylltu â'ch arolygwr ar unwaith, dros y ffôn fel rheol, os bydd rhywun yn marw, yn cael anaf drwg neu'n dioddef yn ddifrifol e.e. o ganlyniad i sioc drydanol neu wenwyn;
- ymgynghori â chynrychiolwyr diogelwch gweithwyr neu'r gweithwyr eu hunain ynglŷn â materion megis newidiadau sy'n effeithio ar iechyd a diogelwch a darparu gwybodaeth a hyfforddiant;
- ystyried anghenion arbennig gweithwyr newydd neu famau beichiog.

Peryglon a risgiau

Mae **perygl** yn golygu unrhyw beth a all achosi niwed e.e. trydan, cyfarpar.
Risg yw'r siawns (beth bynnag ei maint) y bydd niwed yn cael ei wneud.

Pwy allai gael ei niweidio

Gweithwyr cyflogedig – gan gynnwys rhai oddi ar y safle.
Ymwelwyr â'ch safle, e.e. glanhawyr, contractwyr.
Y cyhoedd, e.e. wrth fynychu sesiynau hyfforddi neu alw heibio i brynu cynnyrch neu'r rhai sy'n derbyn gwasanaethau gwirfoddol.
Gwirfoddolwyr – o bob oed a allai fod yn ymwneud â'ch gweithgareddau e.e. clirio tir, paentio ac addurno, gwaith yn y gegin, symud pobl oedrannus neu anabl.

Cymorth Cyntaf

Rhaid ichi gael:

- Rhywun a all ysgwyddo cyfrifoldeb mewn argyfwng. Rhaid i rywun sydd wedi ei benodi fod ar gael pa bryd bynnag y mae pobl wrth eu gwaith.
- Blwch cymorth cyntaf.
- Hysbysiadau yn dweud wrth bobl ym mhle mae'r blwch cymorth cyntaf a phwy yw'r person a benodwyd.
- Wrth i'r cwmni dyfu, ystyriwch ar yr angen am swyddogion cymorth cyntaf cymwysedig. Rhaid cael hyfforddiant priodol a thystysgrif ddilys am dair blynedd. Ar ôl hynny mae angen cwrs gloywi ac arholiad arall.

Hyfforddiant

Rhaid ichi sicrhau bod pob gweithiwr yn cael hyfforddiant iechyd a diogelwch. Rhaid ailgynnig yr hyfforddiant o bryd i'w gilydd neu pan wneir newidiadau.

Os oes gennych unrhyw amheuon ynglŷn â'ch cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch tuag at eich gweithwyr neu bobl eraill y gallai eich gwaith chi gael effaith arnynt, gofynnwch am fwy o gyngor.

Mwy o wybodaeth

Swyddfeydd Iechyd yr Amgylchedd

Gallwch gysylltu â hwy i ofyn am gyngor os mai hwy yw'ch corff gorfodi. Mae eu rhif ffôn yn eich llyfr ffôn dan adran yr Awdurdod Lleol.

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Ffôn: 08701 545500
www.hse.gov.uk – Mae'r wefan hon yn rhoi braslun o waith yr Awdurdod Gweithredol a Diogelwch a'r wybodaeth y gall ei chynnig i chi.
www.hsedirect.com – Disgrifiwyd y wefan hon fel ffynhonnell bwysig ar gyfer gwybodaeth am ddeddfwriaeth a chanllawiau iechyd a diogelwch.
www.hsebooks.co.uk – Mae'r wefan hon yn rhestru ac yn rhoi cyfle ichi archebu llyfrau a fideos sydd wedi eu cynhyrchu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – rhai ohonynt ar gael am ddim. Mae rhywfaint o'r deunydd ar gael yn Gymraeg hefyd.

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar y cyd â'r Grŵp Diogelwch Elusennau wedi cynhyrchu dogfen wedi ei hanelu'n benodol at y sector gwirfoddol. Teitl y ddogfen yw *Charity and voluntary workers: a guide to health and safety at work,* ISBN 0 7176 2424 2. Gallwch gael copi ohoni drwy gysylltu â HSE Books
Ffôn: 01787 881165
www.hsebooks.co.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:15/06/2007

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk